Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Practis Deintyddol Tongwynlais
# Dyddiad y gweithgarwch: 31 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 5 Gorffennaf 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


978-1-80364-469-1

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Tongwynlais fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Ynghyd â'r ystod lawn o wasanaethau deintyddol y GIG, mae'r practis yn darparu detholiad o driniaethau cosmetig preifat.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol i sicrhau gweithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r prif ddeintydd / y darparwr cofrestredig, rheolwr y practis a'r rheolwr busnes ar 31 Mai 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

Practisau deintyddol

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg COVID-19
- Asesiad risg diogelwch corfforol
- Rheolaeth ddeintyddol cleifion yng Nghymru yn ystod y cyfnod adfer ar ôl pandemig COVID-19

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym am y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis o ganlyniad i'r pandemig. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i staff a chleifion ynghyd â gorsafoedd ymolchi a diheintio dwylo ym mhob rhan o'r adeilad. Roedd amserlenni glanhau wedi cael eu haddasu i alluogi glanhau amlach. Dywedwyd wrthym fod y practis yn diweddaru ei bolisïau a'i weithdrefnau yn gyson yn unol â diweddariadau a chyngor gan gyrff allanol. Roedd hyn yn cynnwys y canllawiau a gyhoeddir gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru.

Dywedwyd wrthym am y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn y mannau cymunol a'r ystafelloedd triniaeth. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngu ymweliadau â'r practis i gleifion sydd ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Mae sgriniau wedi'u gosod i amddiffyn staff y dderbynfa ac roedd system un ffordd yn cael ei dilyn yn ystod cyfnodau cyfyngiadau symud y pandemig. Roedd yr holl eitemau diangen wedi'u symud o'r ystafelloedd triniaeth a'r man aros. Mae pedair ystafell driniaeth i gyd, ond tair ystafell driniaeth sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ddarparu gofal a thriniaethau i gleifion.

Cyn unrhyw apwyntiad, dywedwyd wrthym y bydd y staff yn cysylltu â'r cleifion i gwblhau holiadur sgrinio COVID-19. Mae'r staff hefyd yn rhoi gwybodaeth i gleifion am daith y claf yn y practis. Mae'r mesurau hyn yn helpu i leihau'r amser y mae claf yn ei dreulio yn y ddeintyddfa ac yn sicrhau ei fod yn gwybod beth i'w ddisgwyl ar ôl iddo gyrraedd.

Pan fydd cleifion yn cyrraedd ar gyfer eu hapwyntiad, gofynnir iddynt a oes ganddynt unrhyw symptomau COVID-19. Roedd tymheredd yn cael ei gymryd a'i gofnodi a darperir hylif diheintio dwylo wrth fynd i mewn i'r adeilad. Roedd yn ofynnol i gleifion wisgo masgiau nes eu bod yn eistedd yn y ddeintyddfa, oni bai eu bod wedi'u heithrio.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis staff sy'n siarad Cymraeg a bod polisïau ar waith sy'n adlewyrchu bod gwybodaeth a gwasanaethau dwyieithog ar gael.

Dywedwyd wrthym fod gan bob ystafell driniaeth yr offer i gynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol.[1] Mae unedau awyru ac echdynnu wedi'u gosod ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth i hwyluso'r broses o gael gwared ar aer halogedig.

Mae nifer yr apwyntiadau sydd ar gael wedi cynyddu ers y cyfyngiadau symud, gyda'r practis yn cynnal archwiliadau deintyddol mwy arferol. Yn dibynnu ar y weithdrefn, mae rhai apwyntiadau wedi'u hymestyn i alluogi cyfnod segur[2] digonol ac i alluogi digon o amser i ddiheintio'r ystafell driniaeth rhwng cleifion. Dywedodd staff nad oedd hyn wedi cael unrhyw effaith ar brofiad y claf nac ar y gofal yr oedd cleifion yn ei dderbyn.

Cawsom asesiad risg COVID-19 ac asesiad risg diogelwch corfforol y practis. Dywedwyd wrthym fod iComply[3] yn cael ei ddefnyddio i gwblhau asesiadau rheolaidd o'r amgylchedd, a oedd yn cynnwys asesiad risgiau tân ac asesiad gweithwyr unigol. Mae'r rhain yn sicrhau bod peryglon sylweddol yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw gamau'n cael eu cymryd i leihau'r risg.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus mae'n rheoli'r risg o heintiau er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac archwiliad iComply o atal a rheoli heintiau

[1] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.
[2] Cyfnod segur yw'r amser segur yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol.
[3] iComply – meddalwedd cydymffurfio deintyddol.

- Polisi glanhau domestig
- Ystyriaethau ac amserlen lanhau'r amgylchedd
- Polisi rheoli heintiau a gweithdrefnau atal heintiau
- Rhestr wirio ddyddiol yr ystafell ddihalogi
- Cofnodion glanhau amgylcheddol
- Gwiriadau dyddiol ac wythnosol o’r awtoclaf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Rhoddwyd dogfennau amrywiol inni ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys polisi COVID-19 y practis. Gwelsom dystiolaeth o amserlenni a chofnodion glanhau’r practis ar gyfer dihalogi offerynnau ac offer deintyddol.

Dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau, a'u bod yn eu cyflawni. Cafwyd tystiolaeth o hyn ym mholisi COVID-19 y practis ac amserlenni glanhau'r ddeintyddfa, a oedd yn amlinellu camau a chyfrifoldebau'r tîm rheoli a'r staff er mwyn atal lledaeniad y feirws. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod hyfforddiant cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys hyfforddiant masgiau a gwisgo a diosg[4] cyfarpar diogelu personol, wedi’i gyflwyno i’r holl staff.

Dywedwyd wrthym, pan fydd gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol yn cael eu cynnal, bod y practis yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd yn y Weithdrefn Gweithredu Safonol. Mae'r galwad brysbennu[5] yn helpu i nodi'r amser mwyaf addas ar gyfer yr apwyntiad a pha offer fydd eu hangen. Mae hwn yn cael ei baratoi ymlaen llaw er mwyn lleihau’r angen i staff fynd i mewn i'r ystafell driniaeth, neu'i gadael, yn ystod y weithdrefn. Mae'r system awyru mecanyddol yn helpu i leihau’r crynodiad o aerosolau yn yr aer ac mae'n lleihau faint o amser segur[6] sydd rhwng pob claf. Mae’r arferion hyn yn sicrhau bod y risg a berir gan heintiau yn cael ei lleihau yn ystod gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol.

Eglurodd staff y cysylltwyd â chleifion dros y ffôn cyn eu hapwyntiad a gofynnwyd cyfres o gwestiynau iddynt i bennu a oeddent yn peri risg o drosglwyddo'r feirws. Os oes angen triniaeth frys ar glaf, trefnir apwyntiadau i'r claf gael ei weld gan ddefnyddio llwybr anadlol y practis. Os nad ystyrir bod angen triniaeth frys, caiff hon ei gohirio nes bod y claf yn iach.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis stoc ddigonol o gyfarpar diogelu personol ac yr ymgymerir â gwiriadau stoc bob wythnos ac archebir unrhyw gyflenwadau sydd eu hangen.

[4] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.
[5] Brysbennu yw'r broses o flaenoriaethu gofal cleifion yn seiliedig ar salwch/anaf, difrifoldeb, rhagolwg ac argaeledd adnoddau.
[6] Ar ôl i driniaeth sy'n cynhyrchu aerosol gael ei chyflawni, mae angen cyfnod segur priodol. Cyfnod segur yw'r amser lle caiff yr ystafell driniaeth ei gadael heb amharu arni er mwyn i aerosolau setlo yn yr ystafell driniaeth cyn y gellir cychwyn glanhau a chynnal yr apwyntiad nesaf.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017
- Polisi cydsynio
- Cynllunio at drychinebau a chynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant ar gyfer staff
- Archwiliad cardiau cofnod
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf
- Copi o'r daflen wybodaeth i gleifion ddiweddaraf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol. Eglurodd staff y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol, gyda staff yn parhau i ddefnyddio pecynnau e-ddysgu[7] ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Cawsom wybod na wnaeth y practis gau yn ystod camau cyntaf y pandemig. Trwy gydol y pandemig, mae'r practis wedi cynnal system o gymryd galwadau ar gyfer brysbennu o bell.[8] Mae hyn yn sicrhau y gellir darparu gofal i gleifion yn unol â'u hanghenion.

Mae'r practis wedi cynnal ei brosesau ar gyfer adrodd am unrhyw ddigwyddiadau, gyda'r rheolwr practis a busnes yn goruchwylio unrhyw ddigwyddiadau. Bydd unrhyw ddigwyddiad yn cael ei adrodd i'r asiantaeth reoleiddio briodol a bydd unrhyw wersi a ddysgir yn cael eu rhannu gyda staff y practis. Cyflëir unrhyw ganllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i staff trwy gyfrwng cyfarfodydd staff, e-bost, a'u grŵp ar y cyfryngau cymdeithasol.

[7] Dysgu a gynhelir trwy gyfryngau electronig, yn nodweddiadol ar y rhyngrwyd.
[8] Dyrannu graddau brys er mwyn penderfynu ar drefn y driniaeth o blith nifer o gleifion.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion. Cafwyd tystiolaeth o hyn yn y ddogfennaeth archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad, a oedd yn cynnwys archwiliad o ansawdd radiograffau, archwiliad cardiau cofnod, ac archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Mae'r defnydd o iComply yn sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd ac y gweithredir arnynt.

Eglurwyd y broses o wirio offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys, ac mae'r nyrs arwain yn gyfrifol am gynnal gwiriadau dyddiol. Cofnodir y canfyddiadau mewn llyfrau cofnodion priodol a chaiff unrhyw stoc ei harchebu yn ôl yr angen.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben[9] a'r daflen wybodaeth i gleifion,[10] a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd

- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

[9] Ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â Rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac Atodlen 1.
[10] Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Cynllun gwella ar unwaith

Lleoliad: Practis Deintyddol Tongwynlais

Dyddiad y gweithgarwch: 31 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith yn ystod y gwiriad ansawdd hwn. | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad B: Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Deintyddol Tongwynlais

Dyddiad y gweithgarwch: 31 Mai 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau yn ystod y gwiriad ansawdd hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**